Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Parhawn i gofio am yr holl deuluoedd yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid a gweddïwn eich bod yn profi nerth a chynhaliaeth Duw yn ddigon y dyddiau hyn.

Cofiwn hefyd y rhai hynny ohonoch sydd heb fod yn dda eich iechyd, rhai wedi treulio ychydig ddyddiau yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf. Cofiwn yn arbennig am Helen Edmunds (Nantglyn), Gwynant Jones a Gwynfor Pritchard (Llansannan), yn ogystal ag Eurgain Pierce (Llannefydd) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Mae'n dda cael adrodd fod Gwilym Davies (Llansannan) wedi dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Cyflwynwn bob un ohonoch i ofal yr Arglwydd gan weddïo eich bod yn adnabod daioni Duw yn eich amgylchynu.

Llongyfarchiadau i Bob a Liz Pritchard (Llannefydd) ar achlysur dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol, a phob dymuniad da am flynyddoedd lawer eto o iechyd a hapusrwydd yng nghwmni eich gilydd.

Cinio Cynnil

Os byddwch yn siopa yn Ninbych ar ddydd Gwener yn ystod cyfnod y Grawys a'ch bod awydd cinio cynnil, ewch i Eglwys y Santes Fair, Dinbych rhwng 12:00 ac 13:00 o'r gloch. Yno, cewch gawl cartref a rholyn bara, darn o ffrwyth, a dŵr am bris o £3.50. Bydd yr elw tuag at waith Cymorth Cristnogol.

Gŵyl Llanw 2024

Cynhelir yr ŵyl Gristnogol hon eleni eto yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog rhwng Ebrill 1af–5ed. Y prif siaradwr bore Mawrth, bore Mercher a bore Iau fydd Arfon Jones, ac o nos Lun ymlaen, bydd Martyn Geraint, Heulwen Davies, Steffan Jones, Steff Morris a Lois Franks ac eraill yn arwain yr oedfaon/cyfarfodydd gyda'r nos. Bydd darpariaeth ar gyfer y plant a'r ieuenctid hefyd. Cymraeg fydd iaith holl weithgaredd a chyfarfodydd Llanw ond bydd offer cyfieithu ar gael yn y prif oedfaon. Bydd croeso i bawb ymuno yn y cyfarfodydd. I gael mwy o fanylion ac er mwyn archebu tocynnau, ewch i wefan Llanw: https://llanw.org/llanw-24.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (6ed), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 25 Chwefror 2024

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Arwyddion y Gwanwyn

Edrychaf ymlaen am y mis bach bob blwyddyn. Dyma'r cyfnod y gwelwn arwyddion fod y gaeaf yn dod i'w ddiwedd wrth i'r eirlys ymddangos ac yna'r cennin Pedr. Dau flodyn gwahanol iawn i'w gilydd ydyn nhw. Y cyntaf i ymwthio o'r ddaear galed oer yw'r blodyn bychan glân a'i ben wedi'i ostwng. Mae ei ymddangosiad i weld yn wyrthiol gan oresgyn caledrwch y tywydd garw. Yna daw'r cennin Pedr, yn frenhinol lachar yn cyhoeddi ei fuddugoliaeth yn llawn hyder gan ddwyn lliw a gobaith i'r ddaear.

Cyhoeddi gwanwyn a dechrau newydd wna dyfodiad Iesu Grist i'r byd. Un a ymddangosodd ar lwyfan hanes yn wyrthiol, yn llawn bywyd, yn weddïgar a gostyngedig, yn bur a glân ei fywyd ynghanol byd o ddrygioni a phechod. Ynghanol argyfwng gaeaf dyn, safodd yn ddewr, yn ddyn perffaith drosom ac er i stormydd y gaeaf ysbrydol chwythu arno gan ei blygu a'i fwrw i'r llawr, ni chollodd ei harddwch. Do, rhoddodd ei fywyd drosom, ond nid dyna ddiwedd y stori. Cawn olwg arall ar yr Iesu, sef Iesu'r brenin llachar atgyfodedig sy'n disgleirio ar lwyfan hanes ac ymhob cenhedlaeth. Dyma'r brenin buddugoliaethus atgyfodedig sy'n cyhoeddi bywyd a dechrau newydd i bob un a ddaw ato. Gelwir ni i blygu yn weddïgar ger ei fron a gafael yn ei addewid i ddechrau byw o'r newydd yn ei nerth. Gelwir ni hefyd i ddatgan yn glir ei fuddugoliaeth dros bechod a'r bedd. Cyhoedda efengyl Iesu, heddiw eto, obaith am wanwyn Duw yn ein bywydau a'n cymdeithas, waeth beth yw ein hamgylchiadau. Cofiwn eiriau Iesu:

"Dw i wedi dod i roi bywyd i bobl, a hwnnw'n fywyd ar ei orau." (Ioan 10:10)

"Dewch ata i, bawb sy'n cael eich llethu gan feichiau trwm, a rhof i orffwys i chi. Dewch gyda mi o dan fy iau, er mwyn i chi ddysgu gen i. Dw i'n addfwyn ac yn ostyngedig, a chewch chi orffwys. Mae fy iau i yn gyfforddus a dw i ddim yn gosod beichiau trwm ar bobl." (Mathew 11:28-30)

Y Parch. R. O. Roberts

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Chwefror 25ain

- **Dydd Gweddi'r Byd yn Llansannan** am 9:30, **yn Llanfair** am 10:00 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 10:30. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Robinson. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10:00 ac yn Groes am 10:15.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn (a phob pnawn Sul arall).

Dydd Llun, Chwefror 26ain

- **Cyfarfod Plant Pantpastynog** o 3:00-4:00 y pnawn o dan ofal tîm Bro Dinbych.
- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** 'Grym Gweddi' o dan arweiniad gweithwyr Dorcas am 7:00 yr hwyr. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. Cysylltwch â'r swyddfa i gael y ddolen i gysylltu (01678 520565). **(DYDDIAD WEDI EI AIL DREFNU)**

Dydd Mawrth, Chwefror 27ain

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Festri Capel y Waen, Nantglyn am 7:30 yr hwyr.
- **Cymdeithas Llansannan** – "Ar Daith" gyda Richard Vernon, Llansannan (gitarydd bas y grŵp "The Mission") yn y Festri am 7:30 yr hwyr.

Dydd Iau, Chwefror 29ain

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes eraill am ymuno, plîs cysylltwch ag Anti Olwen (07359 154228).

Dydd Gwener, Mawrth 1af

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llannefydd** am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Mawrth 3ydd

- **Oedfa yn Llanfair** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Celfyn Williams. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Dydd Gweddi'r Byd yn Groes** am 9:30.
- **Dydd Gweddi'r Byd yng Nghefn Berain** am 10:00.
- **Dydd Gweddi'r Byd yn Llannefydd** am 10:00 ac Ysgol Sul y plant yn cydredeg.
- **Dydd Gweddi'r Byd yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00.
- **Gwasanaeth Undebol Dydd Gŵyl Dewi yn Henllan** am 2:00.

Dydd Llun, Mawrth 4ydd

- **Pwyllgor Bugeiliol** (i flaenoriaid a diaconiaid yr Ofalaeth, ynghyd â'r aelod sydd wedi ei ddewis i gynrychioli pob eglwys) **yn Llansannan** am 7:00 yr hwyr. Edrychwn ymlaen i gael arweiniad gan y Parch. Nan Powell-Davies yn y cyfarfod. *(SYLWER: Ni fydd Cyfarfod Arbennig o'r Henaduriaeth yn cael ei gynnal ar y dyddiad hwn fel y bwriadwyd yn yr eisteddiad diwethaf o'r Henaduriaeth.)*
- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** 'Grym Gweddi' o dan arweiniad gweithwyr Dorcas am 7:00 yr hwyr. (Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.) Cysylltwch â'r swyddfa i gael y ddolen i gysylltu (01678 520565).

Dydd Mawrth, Mawrth 5ed

- **Paned a Sgwrs** yn Festri Llansannan am 1:30 y pnawn. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Iau, Mawrth 7fed

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes eraill am ymuno, plîs cysylltwch ag Anti Olwen (07359 154228).

Dydd Gwener, Mawrth 8fed

- **Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Llansannan** yn y Festri am 7:00. Y wraig wadd fydd Mrs Mair Selway. Enwau i Sheila (07771 761172) neu Bethan (07789 893349) erbyn dydd Mercher (6ed), os gwelwch yn dda. Croeso i bawb.

Dydd Sul, Mawrth 10fed

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Eric Greene. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa i'r Daith yng Nghefn Berain** am 10:30 o dan arweiniad Mr Dafydd Murphy. Bydd Ysgol Sul y plant yn Henllan am 9:30.

Lleuwen Steffan – Emynau Coll y Werin

Mae taith y gantores Lleuwen Steffan (gafodd ei swyno'n annisgwyl gan leisiau o'r gorffennol yn rhannu eu profiad am ddiwygiad crefyddol 1904-05) o amgylch capeli Cymru wedi cychwyn ac mae ymweliad â thros 20 capel wedi ei drefnu yn ystod yr wythnosau nesaf, gyda mwy i ddod yn nhymor yr hydref. Ond, dydd Mawrth, 30 Ebrill 2024, bydd Lleuwen yng Nghapel y Waen, Llanelwy am 1:00 y pnawn ac yng Nghapel Mawr, Dinbych am 7:00 yr hwyr os byddwch chi am fynd draw yno. Bydd perfformiadau eraill yn yr ardal hon yn nes ymlaen yn y flwyddyn – mwy o fanylion i ddilyn.